## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar yr 22ain Mai, 2002, am 10 a.m. yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr M.Ll. Davies, P. Douglas, S. Drew, A E. Fletcher-Williams, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, N.J. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones, F.D. Jones, G. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, E.A. Owens, F. Shaw, J.A. Smith, S. Thomas, W.G. Thomas, K.E.Wells, C.H. Williams, P.O. Williams, R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd), Uwch Swyddog Cynllunio (D. Beggan), Swyddog Gweinyddu (G. Butler) Cynorthwy-ydd Gweinyddu (L. Fletcher)

### CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Cynghorwyr J. Butterfield, P. Jones, I. German, R.W. Hughes, K.P. Stevens

### 12. EITEMAU BRYS

Dim

### 13. AELODAETH Y PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cyhoeddwyd y bydd y Cynghorydd E.R. Jones yn cymryd lle'r Cynghorydd P. Tobin fel yr aelod Annibynnol ar y Pwyllgor Cynllunio.

### 14. PENODI CADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd M. German, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau Aelodau'r Cabinet, fod cadeirydd i'w benodi ar gyfer cyfarfod heddiw yn unig. O'i roi i bleidlais, trechwyd y cynnig hwn. Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer swydd Cadeirydd ar ran y Cynghorydd F.D. Jones.

***PENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd F.D. Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer y flwyddyn i ddod.*

### 15. PENODI IS-GADEIRYDD

Derbyniwyd enwebiadau ar gyfer swydd Is-Gadeirydd ar ran y Cynghorydd M.Ll. Davies a'r Cynghorydd R.Ll. Williams.

O'i roi i bleidlais fe:-

***BENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd R. Lloyd Williams yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio am y flwyddyn i ddod.*

### 16. CYHOEDDIADAU/CROESO

Diolchodd y Cynghorydd F.D. Jones i'r Pwyllgor am y fraint o barhau fel Cadeirydd.

Croesawodd y Cadeirydd Declan Beggan, Uwch Swyddog Cynllunio (De) a oedd yn mynychu'r Pwyllgor yn absenoldeb Ian Weaver.

Hefyd croesawodd y Cadeirydd Lisa Fletcher, Cynorthwy-ydd Gweinyddol a oedd yn mynychu'r Pwyllgor fel rhan o'i Datblygiad Staff.

## 17. CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir o fewn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 30/2002/0346/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried cynllun lleoliad diwygiedig a gylchredwyd)<br>Codi estyniad to serth unllawr wrth ochr ac ystafell wydr yng nghefn y ty annedd yn 2 Llys Caradog, Allt Goch, Llanelwy.<br>YN AMODOL ar yr amodau diwygiedig 2 & 4<br>2. Dileu "oni bai y cytunir fel arall gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol"<br>4. Mewnosod "ar yr ystlyslun (gogleddol)" |
| 43/2001/1011/Amlinellol | (Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Prestatyn ac R.E. Senior, 238A Victoria Road, Prestatyn)<br>Datblygu 1.22hectar o dir drwy godi unedau adwerthu gyda fflatiau uwchben, meithrinfa ddydd, bwyty, meddygfa a fferyllfa, a ffyrdd mynediad a pharcio cysylltiedig (Cais Amlinellol) yn Hen Safle Traeth y Twr, Victoria Road, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig 6 ac amodau newydd 19, 20, 21 a 22<br>6. "Adeiladau" (nid adeilad)<br>19. Cyn i neb symud i mewn i unrhyw un o'r unedau adwerthu neu fwyty a ganiateir drwy hyn mae cynllun gogyfer â rheoli sbwriel i'w gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Mae'r cynllun a gymeradwywyd i'w weithredu ar yr un pryd â dechrau defnyddio unrhyw un o'r unedau adwerthu neu'r bwyty ac mae i'w weithredu wedi hynny<br>RHESWM - Er lles amwynder gweledol a phreswyl<br>20. Mae'r adeiladau ar gyfer y feddygfa a'r feithrinfa ddydd (Defnydd Dosbarth D1) i'w codi a'r defnydd i'w ddechrau cyn neu ar yr un pryd â dechrau defnyddio unrhyw un o'r unedau adwerthu (Dosbarth A1) neu'r bwyty (Dosbarth A3).<br>RHESWM - sicrhau bod datblygiad cymysg sy'n cynnwys cyfleusterau cymunedol yn cael ei ddarparu ar y safle.<br>21. Nid oes dim defnyddiau crai, cynhyrchion neu ddarnau gorffenedig neu anorffenedig, cratiau, defnyddiau pacio neu wastraff i'w pentyrru neu'u storio ar y safle heblaw o fewn yr adeiladau neu'r mannau storio sydd wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol at y diben hwn.<br>22. Nid oes dim gwerthu nwyddau cymhariaeth neu nwyddau "gwyn" i fod o'r unedau adwerthu a ganiateir drwy hyn |

RHESWM - Cyfyngu amrywiaeth y nwyddau sydd i'w gwerthu i ddiogelu canolfannau siopau trefi cyfagos a chanolfannau siopa eraill
(Gofynnodd yr Aelodau fod y Gwasanaethau Cyfreithiol yn rhoi cyngor ar rôl Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio sydd hefyd yn eistedd ar Gynghorau Tref/Cymuned, gan ddal sylw'n arbennig ar eu cyfranogiad yn nhrafodaethau'r Cynghorau Tref/Cymuned ar faterion cynllunio)

43/2002/0127/Amlinellol

(Ar ôl ystyried: newid i'r adroddiad i adlewyrchu presenoldeb y Cynghorydd R.E Jones yn yr Ymweliad Safle;
cynllun diwygiedig a dderbyniwyd;
ac un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Y Prisiwr Mwynau
Datblygu 0.49hectar o dir drwy ddymchwel yr annedd bresennol a chodi 7 o Anheddau a chreu mynedfeydd newydd i gerbydau i Ffordd Gronant a Tudor Avenue (Cais Amlinellol) yn 72 Ffordd Gronant, Prestatyn
YN AMODOL ar amodau newydd 10 ac 11
10. Cyn i neb fyw yn yr anheddau gyda mynediad o Ffordd Gronant mae'r fynedfa bresennol i gerbydau o Ffordd Gronant i'w chau yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
RHESWM - Er lles amwynder gweledol a diogelwch y briffordd.
11. Cyn cychwyn y datblygiad mae'r safle i'w archwilio a'i asesu i benderfynu unrhyw beryglon sy'n gysylltiedig â lefelydd tanddaearol islaw'r safle. Mae'r asesiad i gynnwys unrhyw fesurau lliniaru angenrheidiol yn erbyn peryglon a ganfuwyd, sydd i'w cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn cychwyn y datblygiad. Mae unrhyw fesurau lliniaru i'w hymgorffori'n llawn yn y datblygiad.
RHESWM - penderfynu sadrwydd y ddaear a chlustnodi unrhyw fesurau gwellhaol sydd eu hangen i ymdrin ag unrhyw ansadrwydd.
Penderfynodd yr Aelodau ymhellach i osod Gorchymyn Gwarchod Coed ar y goeden Castanwydden y Meirch sy'n wynebu Ffordd Gronant fel mater o frys.
Dymunai'r Cynghorydd N Hugh Jones iddo gael ei gofnodi ei fod wedi pleidleisio i wrthod caniatâd cynllunio.

43/2002/0329/Adran 73A Parhau/Cadw)

Cyhoeddodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y Siambr tra oedd yn cael ei ystyried.
(Ar ôl derbyn un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd)
Parhau i ddefnyddio tir fel safle carafanau teithiol ar gyfer 30 Uned (cais ôl-weithredol) yng Ngwesty Llys Nant, Ffordd Prestatyn, Prestatyn
YN AMODOL ar amodau diwygiedig 1 a 3 ac amod newydd 6
1. Dim ond at ddibenion gwyliau y mae'r safle i'w ddefnyddio ac mae'r defnydd i'w gyfyngu i unedau ar daith ac nid oes mwy na 30 carafan deithiol i fod ar y safle ar unrhyw un adeg.
3. "Yn y mannau wedi'u llinellu a ddangosir"
6. Mae'r carafanau teithiol ond i ddod i mewn ac allan o'r safle o'r brif fynedfa i'r gwesty oddi ar yr A548 (Ffordd Prestatyn), yn ganolog i ffryntiad y safle ar yr A548.
RHESWM - Er mwyn diogelwch y briffordd.

| | |
|---|---|
| 43/202/0345/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Gwarchod y Cyhoedd)<br>Gosod 1 ddysgl 1.2 m ar uchder o 19m ac 1 ddysgl 1.2m ar uchder o 26.3m ar y mast BT presennol yng Ngorsaf Drosglwyddo BT, Gwaenysgor, Y Rhyl.<br>Dymunai'r Cynghorydd Sophia Drew iddo gael ei nodi ei bod hi wedi pleidleisio i wrthod caniatâd cynllunio. |
| 45/2002/0197/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Y Rhyl, Pennaeth Priffyrdd ac L Roberts o 7 Gordon Avenue, Y Rhyl). Newid defnydd o breswyl Dosbarth C3 yn ddefnydd addysgol Dosbarth D1 yn 6 Gordon Avenue, Y Rhyl. |
| 45/2002/0419/Adran 73A (Amrywio Amod) | Gwaredu Amod Rhif 4 ar Ganiatâd Cynllunio Cyfeirnod 45/2001/0799/PF yn ymwneud ag ystlyslun yr eiddo sydd wedi'i liwio'n wyn yn 44 Lynton Walk, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar ddileu amod 1. |
| 47/2001/1163/Cynllunio Llawn | Newid defnydd tir ac adeiladau yn ddepo contractwr peirianneg sifil, gorsaf ailgylchu a swyddfeydd ategol cysylltiedig ar Dir yn ac yn Gyfagos i Golfa/Trefaldwyn, Ffordd Treffynnon, Llanelwy.<br>YN AMODOL ar Amodau Diwygiedig 7 & 9:<br>7. Nid oes dim offer, peiriannau, defnyddiau crai neu ddefnyddiau eraill, gwastraff neu gynhyrchion eraill i'w storio ar y safle ar uchder o fwy na 3 metr uwchlaw lefel y ddaear<br>9. Sillafiad cywir "until" |
| 02/2002/0234/Cymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl | (Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd a'r Pensaer Cadwraeth).<br>Manylion tair annedd teras (a gyflwynwyd yn unol â Chaniatâd Cynllunio Amlinellol Rhif côd 2/2001/531/PO) yn yr hen Iard Adeiladwr (Turners & Williams) oddi ar Ffordd Wynnstay, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar Amodau Newydd 1 a 2 a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd.<br>(1) Er gwaethaf y manylion ffenestri a gyflwynwyd, mae'r holl ffenestri i fod yn bren wedi'i baentio gyda lliw y paent i'w gytuno cyn i'r datblygiad ddechrau a'i weithredu cyn y dechreuir defnyddio'r anheddau a gymeradwyir drwy hyn.<br>RHESWM: Er lles amwynder gweledol yr ardal gadwraeth.<br>(2) Mae'r darn y tu ôl ac wrth ochr yr annedd arfaethedig ar ffin ogleddol y safle i'w neilltuo ar gyfer storio biniau sbwriel ar gyfer pob un o'r tair annedd yn unig.<br>RHESWM: Er lles amwynder preswyl<br>Nodyn i'r Ymgeisydd - Tynnir eich sylw at y gofyniad i gydymffurfio â'r amodau blaenorol ar y caniatâd amlinellol. |
| 09/2002/0374/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried 4 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd, Pennaeth Gwarchod y Cyhoedd; Cymdeithas y Cerddwyr ac Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd).<br>Codi estyniad a newidiadau i'r annedd bresennol, addasu ysgubor i greu lle byw ychwanegol, codi garej ddomestig tri rhaniad ac adeilad gweithdy, newid defnydd tir amaethyddol i |

| | |
|---|---|
| | ffurfio estyniad i'r cwrtil domestig i gymryd y dreif newydd yn Cil Llwyn, Llandyrnog, Dinbych.<br>YN AMODOL ar Amodau Newydd 1 a 2 a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd.<br>(1) Ni chaniateir i unrhyw ddatblygu ddechrau hyd nes y bydd manylion arolwg o gynhwysedd y tanc carthion a'r system ffos gerrig wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol eu hystyried, a hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod fod y cynhwysedd yn dderbyniol i gymryd y datblygiad.<br>RHESWM: Sicrhau bod y system ddraenio sy'n gwasanaethu'r datblygiad yn dderbyniol.<br>(2) Nid yw'r datblygiad i ddechrau hyd nes y bydd arolwg ffotograffig priodol o'r adeilad presennol ar y safle wedi'i wneud yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.<br>RHESWM: Er mwyn cadw'r record lleiaf posibl o adeilad sydd yn arwyddocaol yn lleol.<br>Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd - Nodyn Atodol Priffyrdd 2 - Ffurflen Rhan N Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithiau Strydoedd 1991. |
| 15/2002/0162/Cynllunio Llawn | Cyhoeddodd y Cynghorydd Selwyn Thomas ddiddordeb (ymlaen llaw) yn y cais canlynol ac roedd wedi gadael y Siambr cyn iddo gael ei ystyried.<br>(Ar ôl ystyried 4 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth M W Davies o 2 Ochr y Foel; A Roberts o Crud y Gwynt; Cyngor Cymuned Llanarmon-yn-Iâl a Chymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Cylch). Ail-leoli tair carafan o fewn y safle carafanau presennol ym Mharc Carafanau Eryrys, Bryn Awelon, Eryrys, Yr Wyddgrug. |
| 15/2001/0235/Amlinellol | (Ar ôl ystyried cywiriad i'r adroddiad - mae rhan o'r safle (yr ardd a rhan o'r fynedfa) y tu allan i'r ffin ddatblygu, a sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Cymuned Llanarmon-yn-Iâl a Chymdeithas Gadwraeth Llanarmon a'r Cylch). Datblygu tir drwy godi un annedd (cais amlinellol) yn Cam yr Alyn, Ffordd Llandegla, Llanarmon-yn-Iâl, Yr Wyddgrug.<br>YN AMODOL ar Amod Newydd 10.<br>10. Mae unrhyw annedd ar y safle arfaethedig i'w lleoli o fewn y ffin ddatblygu ar gyfer pentref Llanarmon-yn-Iâl.<br>RHESWM: Er lles amwynder gweledol ac er mwyn cynllunio a datblygu'r ardal yn iawn.<br>(Dymunai'r Cynghorydd Sophia Drew iddo gael ei nodi ei bod hi wedi pleidleisio'n erbyn rhoi Caniatâd Cynllunio.) |
| 16/2001/0989/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd (Draeniad).<br>Creu mynedfa newydd i gerbydau yn Glenhaven, Llanbedr Dyffryn Clwyd, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar Amodau Newydd a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd.<br>(1) Nid yw rhediad y fynedfa i fod fel y'i dangosir ar y cynlluniau a gyflenwyd ond mae i'w gytuno ymhellach yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol cyn i unrhyw waith gychwyn ar y safle.<br>RHESWM: Er mwyn diogelwch y briffordd. |

(2) Cyn i'r datblygiad gychwyn mae'r gorffeniad terfynol ar y waliau cynhaliol i'w gytuno'n ysgrifenedig gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'r gorffeniad terfynol i'w weithredu cyn y dechreuir defnyddio'r fynedfa.
RHESWM: Er mwyn amwynder gweledol yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.
Nodyn i'r Ymgeisydd - Tynnir sylw'r ymgeisydd at y Nodiadau Cynghorol amgaeëdig, y dylid cadw atynt yn llwyr
(i) Nodiadau Atodol Priffordd Rhifau 1, 2, 3, 4, 5, a 10.
(ii) Ffurflen Rhan N Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithiau Strydoedd 1991.

| | |
|---|---|
| 17/2001/0275 Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Dewi Thomas, Arolygydd Esgobaeth Llanelwy) Dymchwel y garej bresennol a chodi garej ddwbl ddomestig newydd ar ei phen ei hun (cais ôl-weithredol) yn Y Rheithordy, Llandegla, Wrecsam.<br>(Dymunai'r Cynghorydd Sophia Drew iddo gael ei nodi ei bod hi wedi pleidleisio i wrthod Caniatâd Cynllunio) |
| 20/2001/0845/Amlinellol | (Ar ôl ystyried 2 lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd a Mr M E & Mrs M M Jones o Wern, Pentrecelyn). Tir yn gyfagos i Cilgwyn Pentrecelyn, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar Amodau Newydd a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd |

(4) Mae'r carthffosiad budr o'r datblygiad arfaethedig i'w arllwys i danc carthion a system ffos gerrig, sy'n cwrdd â gofynion Safonau Prydeinig BS6297:1983 ac sy'n cydymffurfio â'r canlynol:

- Rhaid peidio â bod dim cysylltiad ag unrhyw ffos, cwrs dwr neu system ddraenio
- Nid oes yr un rhan o'r tanc carthion neu'r ffos gerrig i fod o fewn 50 metr i gyflenwad dwr yfadwy e.e. Ffynnon, ffrwd neu dwll turio.
- Rhaid i ddigon o dir fod ar gael ar gyfer hyd y ffos gerrig sydd ei hangen, a rhaid i'r ffos gerrig fod wedi'i chynllunio a'i gosod i adlewyrchu canlyniadau'r profion mandylledd.

RHESWM: Atal llygru ar yr amgylchedd dwr.
(5)(ii) Er gwaethaf darpariaeth Gorchymyn Datblygu Cyffredinol Cynllunio Gwlad a Thref (neu unrhyw orchymyn sy'n diddymu neu'n ailddeddfu'r gorchymyn hwnnw) nid oes yr un tanc i storio unrhyw olew, tanwydd neu gemegyn i'w godi o fewn cwrtil y ty annedd oni bai ei fod wedi'i leoli ar sylfaen anhydraidd a'i amgylchynu gan waliau bwnd anhydraidd. Dylai cyfaint y lle caeëdig sydd â bwnd o'i amgylch fod o leiaf gymaint â chynhwysedd y tanc a 10% ar ben hynny. Rhaid i'r holl fannau llenwi, awyrellau a gwydrynnau archwilio fod wedi'u selio heb unrhyw arllwysiad i unrhyw gwrs dwr, tir neu strata tanddaearol. Dylai'r gwaith pibelli cysylltiedig fod wedi'i leoli uwchben y ddaear ac wedi'i ddiogelu rhag difrod damweiniol.
RHESWM: Atal llygru amgylchedd y dwr.
(6) Er gwaethaf darpariaeth Dosbarthiadau A,B, C, D, E, F a G Rhan 1 a Dosbarthiadau A a B Rhan 2 Atodlen 2

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (neu unrhyw orchymyn sy'n diddymu ac yn ailddeddfu'r gorchymyn hwnnw wedi neu heb ei newid) nid oes dim datblygu a ganiateir gan y dywededig Ddosbarthiadau i'w wneud heb gymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
RHESWM: Er lles amwynder preswyl a/neu weledol.
(7) Nid oes neb i fyw yn yr annedd hyd nes y bydd y lle parcio/blaengwrt a'r fynedfa wedi'u gosod allan a'u hadeiladu yn unol â'r cynlluniau a gymeradwywyd.
RHESWM: Darparu ar gyfer parcio cerbydau yn glir o'r briffordd er mwyn diogelwch traffig.
(8) Mae wyneb y fynedfa arfaethedig i'w balmantu â defnydd bitwminaidd am bellter o 5.0m y tu ôl i derfyn y briffordd ac mae'r cyfan o ffryntiad y fynedfa sy'n gyfagos i'r briffordd i'w atgyfnerthu â chyrbau trwyn glas i gymeradwyaeth yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
RHESWM: Sicrhau nad oes dim defnydd niweidiol yn cael ei gario i'r briffordd.
(9) Nid yw'r wal y naill ochr a'r llall i'r fynedfa arfaethedig i fod dim uwch na 1.05m uwchben y lôn gerbydau gyfagos ac nid oes dim i'w blannu neu'i godi yn uwch na'r uchder hwn o fewn 2.0m
RHESWM: Sicrhau bod gwelededd digonol yn cael ei ddarparu yn y fynedfa arfaethedig i'r briffordd.
Nodyn i'r Ymgeisydd - tynnir sylw'r ymgeiswyr at y Nodiadau Cynghorol amgaeëdig, y dylid cadw atynt yn llwyr
(i) Nodiadau Atodol Priffordd Rhifau 1, 3, 4, 5 a 10
(ii) Deddf Ffyrdd Newydd a Gweithiau Strydoedd 1991 - Ffurflen Rhan N.

| | |
|---|---|
| 23/2002/0133/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried 1 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth yr ymgeisydd). Codi estyniad i'r adeilad amaethyddol presennol ar gyfer da byw, porthiant a pheiriannau yn Bryn Bella, Saron, Dinbych.<br>YN AMODOL ar Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd - Os gwneir cais i ddiddymu neu newid amod 3 i'r Cyngor, yna mae unrhyw gais o'r fath i'w gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio iddynt hwy ei ystyried. |
| 24/2002/0269 Cynllunio Llawn | (Cyhoeddodd Mrs G Butler ddiddordeb yn y cais canlynol a gadawodd y siambr tra oedd yn cael ei ystyried)<br>(Ar ôl ystyried 3 llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Cymuned Llanynys, Babtie a Hooson a'r Cwmni) Dymchwel y garej bresennol a chodi estyniad deulawr ac ystafell wydr at yr annedd bresennol yn Ashley House, Rhewl, Rhuthun.<br>YN AMODOL ar Amod Newydd a Nodyn Newydd i'r Ymgeisydd.<br>(7) Nid oes dim datblygu i ddigwydd hyd nes y bydd yr ymgeisydd wedi dangos i, ac wedi cael y cyfryw wedi'i gadarnhau'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, naill ai na fydd y datblygiad a arfaethir yn effeithio'n andwyol ar y garthffos gyhoeddus, neu fod trefniant carthffos addas arall yn briodol. Mae unrhyw waith o'r fath a gytunir i'r garthffos i'w weithredu'n llawn cyn i neb fyw yn y datblygiad am y tro cyntaf. |

RHESWM: Sicrhau bod mynediad at y garthffos gyhoeddus yn cael ei gadw a diogelu sylfaeni'r adeilad os oes angen mynediad.
Nodiadau i'r Ymgeisydd - Fe'ch cynghorir y dylai coeden dderw ar derfyn y safle gael ei diogelu yn ystod y gwaith adeiladu ac na ddylai'r goeden gael ei brigdorri na'i thocio o ganlyniad i'r datblygiad.

(ii) Gwrthod

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| 44/2002/0439/Adran 73A (Parhau/Cadw) | Ar yr amod na dderbynnir unrhyw sylwadau pellach sy'n codi materion cynllunio nad ymdriniwyd â hwy eisoes yn yr adroddiad erbyn 29 Mai 2002<br>(Ar ôl ystyried llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Rhuddlan, Mrs Gill Beechwood o Princes Road; Mr a Mrs Bickerstaff o Longthorn a Mr & Mrs J D Williams o Dolydd, Princes Road). Cadw estyniad to dormer yng nghefn (diwygiad i'r cynllun blaenorol) Bedw Arian, Princes Road, Rhuddlan, Y Rhyl.<br>(Dymunai'r Cynghorwyr Ann Owen a P. Douglas iddo gael ei nodi eu bod wedi pleidleisio i roi caniatâd cynllunio).<br>Gwnaed y penderfyniad, a oedd YN GROES i argymhelliad y Swyddogion, am y rheswm canlynol:<br>(1) Byddai'r estyniad to dormer arfaethedig, oherwydd ei raddfa, ei gynllun a'i fanylion, yn tynnu oddi wrth gymeriad a golwg yr adeilad ac Ardal Gadwraeth Rhuddlan, o fewn pa un y mae wedi'i leoli, yn groes i Bolisi C3 Cynllun Lleol Bwrdeistref Rhuddlan, Polisi G3 Cynllun Fframwaith Clwyd, Polisïau CON 6 a HSG 12 Cynllun Datblygu Unedol Cyngor Sir Ddinbych (Fersiwn Newidiadau Arfaethedig) a Chyngor y Llywodraeth yng Nghylchlythyr 61/96 y Swyddfa Gymreig. Byddai'r cynnig, pe'i caniateid, yn ei gwneud hi'n fwy anodd i'r Awdurdod Cynllunio Lleol wrthsefyll estyniadau tebyg mewn mannau eraill yn y gymdogaeth er anfantais bellach i'r ardal gadwraeth. |

**18.** **CHWAREL BURLEY HILL, LLANARMON-YN-IÂL**

Cais am Arolwg o Ganiatâd Mwynau (ROMPS).
Cais Rhif 21/2002/9/MA.
Cais i benderfynu amodau newydd dan Atodlen 14 Deddf Amgylchedd 1995.
Lleoliad - Tilcon (South) Ltd, Chwarel Burley Hill, Llanarmon-yn-Iâl.

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio.

***PENDERFYNWYD*** *(ar ôl ystyried newid i'r adroddiad - dylai'r terfyn amser ddarllen "2021")*

***CYMERADWYO'R*** *amodau newydd a amlinellwyd yn yr adroddiad*

*Yn amodol ar y newidiadau canlynol i'r amodau*

*1. Dyddiad i ddarllen "2021" nid 2001*

*3. (iii) Nid oes dim llwytho neu symud cerbydau i fod y tu allan i'r amseroedd a nodwyd yn 3(i) heblaw'r hyn sydd ei angen i symud traffig cerbydol, pa un ai'n llwythog ai peidio ac sydd ei angen ar gyfer neu mewn cysylltiad â gweithredu'r peiriannau tarmacadam a fydd yn cael ei gyfyngu i'r*

*amseroedd gweithredol a nodwyd yn 3(ii) oni bai y cytunir fel arall yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau.*

8. *Rhestr i gynnwys "Pob eiddo arall: 45DBLAeq 1 awr"*

**19. FFERM WYNT AR Y MÔR TRAETHELLAU'R RHYL**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn manylu ar bapurau ymgynghorol a dderbyniwyd oddi wrth yr Adran Masnach a Diwydiant.

***PENDERFYNWYD**: nad yw Cyngor Sir Ddinbych yn codi unrhyw wrthwynebiad i Fferm Wynt Ar y Môr Traethellau'r Rhyl sydd yn yr arfaeth.*

**20. POLISI CYNLLUNIO CYMRU LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU (2002)**

Cyflwynwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn hysbysu'r Aelodau o gyhoeddiad Polisi Cynllunio Cymru newydd (Mawrth 2002).

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad a darparu copïau o'r ddogfen ar gyfer Ystafelloedd y Grwpiau Gwleidyddol.*

Cododd yr Aelodau y mater fod Polisi Cynllunio Cymru yn cynghori bod Cartrefi Symudol i'w hystyried yn anheddau at ddibenion cynllunio, gan ofyn am gyngor pa un a fyddai hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth dai o fewn CDU Sir Ddinbych.

Cynghorodd swyddogion y gallai'r mater hwn gael ei ystyried pan adolygir y CDU.

**21. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Gan nad oedd angen ymweliad â safle, tynnwyd yr eitem hon yn ôl.

**22. RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan bwerau dirprwyedig rhwng 9fed Ebrill 2002 a 3ydd Mai 2002.

***PENDERFYNWYD** derbyn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 1.20 p.m.

****************